Canllawiau Arfer Da ar gyfer eich Gwefan

Mae'r prosiect Cylchredwyr Technoleg CGS yn darparu gweithdai cyfeillgar ac anffurfiol ar amryw o bynciau'n ymwneud â thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Nod y rhaglen **Cyfathrebu-123**, un o weithgareddau'r Cylchredwyr Technoleg, yw helpu grwpiau gwirfoddol a mudiadau cymunedol i gyfathrebu'n fwy effeithiol.

Gwefan: Canllawiau Arfer Da

Er mwyn creu gwefan lwyddiannus, sy'n hawdd ei defnyddio, mae'n hanfodol eich bod yn cynllunio'n ofalus ac yn mabwysiadu arferion da.

Beth yw pwrpas eich gwefan?

Pwrpas eich gwefan yw darparu adnodd, sy'n hawdd ei ddefnyddio, o'r wybodaeth a'r gwasanaethau diweddaraf. Mae eich gwefan yn gyfle i ymrwymo a hysbysu defnyddwyr. Y modd gorau o sicrhau llwyddiant eich gwefan yw trwy ganfod pwy yw'r ymwelwyr, a pha wybodaeth sy'n berthnasol iddynt. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn ystyried sut fyddai eich cynulleidfa darged yn defnyddio eich gwefan – beth fyddent yn disgwyl ei weld a pha mor hawdd gallant ddod o hyd iddi.

Creu cynnwys ar gyfer eich safle

Ysgrifennu ar gyfer y we

Nid yw pobl yn darllen gwefannau yn yr un ffordd ag y maent yn darllen llyfrau argraffedig neu gylchgronau. Mae'n anarferol i ymwelydd ddarllen testun ar wefan gair am air. Y duedd yw i ddarllenwyr fwrw golwg trwy'r cynnwys. Gallwch gyfleu eich gwybodaeth yn haws trwy:

- Ysgrifennu mewn paragraffau byr, sy'n hawdd eu deall (un syniad fesul paragraff yn nodweddiadol).
- Defnyddio pwyntiau bwled, lle bod hynny'n bosib.
- Ceisio rhoi crynodeb ar frig y dudalen – mae hyn yn helpu pobl i benderfynu p'un ai eu bod eisiau darllen yr wybodaeth fanylach.
- Ceisio pwysleisio geiriau allweddol yn eich testun (e.e. eu rhoi mewn llythrennau trwm)
- Ceisio haneri'r nifer o eiriau - gorau po leiaf weithiau!

Os ydych yn dymuno elwa o'r rhaglen cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Tîm Cylchredwyr ar 01437 771197 neu e-bostiwch contact@walescvccircuitriders.org.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Canllawiau Arfer Da ar gyfer eich Gwefan

Dewislen Lywio

Un o'r materion allweddol sydd ynghlwm â gwefan lwyddiannus yw llywio - dylai eich defnyddwyr fod yn medru dod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano'n gyflym ac yn hawdd. Crëwch deitlau ar gyfer adrannau eich gwefan, sy'n glir ac sy'n gwneud synnwyr - heb fod yn rhy gyfrin! Edrychwch ar wefannau llwyddiannus eraill, a sylwch sut maent yn defnyddio teitlau Tudalen ac Adran syml a chlir i helpu eu hymwelwyr.
Wrth gynllunio eich gwefan, lluniwch fap o'r holl gynnwys rydych yn dymuno'i gynnwys a threfnwch ef fel bod strwythur clir i'r holl wybodaeth.
Sicrhewch fod y ddewislen lywio'n ymddangos ar bob tudalen ar eich safle.

Cyfrifoldeb

Mae'r holl wybodaeth sy'n ymddangos ar y wefan yn gyfrifoldeb i'r grŵp. Os oes gennych sawl person yn ychwanegu at y wefan, argymhellir bod gan rywun rôl fonitro cyffredinol i sicrhau fod y cynnwys yn dderbyniol.

Dylunio eich safle

Ni ddylai dyluniad eich safle fod yn ganolbwynt. Fe'ch cynghorir i gadw'r dyluniad yn dawel ac yn syml. Mae ymwelwyr yn ymweld â'ch tudalennau gwe oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn eu cynnwys. Mae fel arfer yn arwydd gwael os ydynt yn ymwybodol o'r dyluniad!
Isod ceir rhestr o argymhellion o ran dyluniad i'w hystyried wrth greu eich gwefan:
Defnyddiwch liwiau plaen ar gyfer y cefndir – naill ai gwyn neu liwiau pastel
Sicrhewch fod lliwiau'r ffont yn gweddu a'u bod yn glir yn erbyn y cefndir
Cadwch y testun i gyd yr un lliw / math o ffont ar draws y wefan.
Meddyliwch ddwywaith am luniau wedi eu hanimeiddio – mae'n bosib y gallent wrthdynnu sylw'r defnyddiwr; gallai ystyr y dudalen fynd ar goll. Byddant yn cynyddu'r amser mae'r dudalen yn cymryd i lwytho i lawr ar gyfrifiadur y defnyddiwr. Os yw llun wedi'i animeiddio'n symud yn rhy sydyn, gallai fod yn niweidiol i bobl sy'n dioddef o epilepsi neu anableddau tebyg. Mae hyn yn gymwys i destun sy'n fflachio hefyd.
Mae'r dewis o ffont yn bwysig. Ffontiau Sans serif sy'n gweithio orau ar y sgrîn, e.e.:

Arial Verdana Helvetica
Garamond Courier

Yn ogystal, mae ymchwil wedi dangos bod pobl sy'n dioddef o ddyslecsia yn medru darllen y ffont "comic sans" yn haws.

Defnyddio synau ar eich tudalennau gwe

Mae ffeiliau sain yn cymryd amser i lwytho i lawr, a byddant yn arafu eich gwefan. Hefyd, gall synau fod yn annifyr iawn, yn enwedig pan nad oes gan yr ymwelwyr reolaeth drostynt. Os yw sain yn elfen angenrheidiol o'ch gwefan, mae'n arfer da i ddweud wrth yr ymwelwyr sut i'w droi i lawr, neu i ffwrdd. Mae'n fwy cwrtais eto i wahodd ymwelwyr i droi'r sain ymlaen yn hytrach na'i ddiffodd.

Os ydych yn dymuno elwa o'r rhaglen cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Tîm Cylchredwyr ar 01437 771197 neu e-bostiwch contact@walescvccircuitriders.org.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Canllawiau Arfer Da ar gyfer eich Gwefan

Lluniau

Gall lluniau, yn enwedig o aelodau'r mudiad, helpu i wneud gwefan ymddangos yn llai amhersonol.
Mae'n bwysig optimeiddio neu gywasgu lluniau ar gyfer y rhyngrwyd. Gall hyn ostwng llawer ar yr amser (aros) a gymerir i ymwelwyr lwytho i lawr o'r wefan. Gellir optimeiddio trwy ddefnyddio meddalwedd golygu lluniau.
Wrth ddefnyddio ffotograffau neu raffeg ar eich gwefan, rhowch ddisgrifiad o'r llun/graffeg bob amser, er lles ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg a'r peiriannau chwilio. Gosodir y disgrifiad hwn mewn 'ALT TAG' (tag arall). Pan fod llygoden y cyfrifiadur yn llithro dros lun bydd disgrifiad ohono'n ymddangos.
Os ydych chi angen nifer fawr o luniau ar eich safle, un ateb yw galeri ffotograffau gyda dewislen weledol o luniau bawd. Yna, gall y defnyddwyr ddewis i weld llun yn fwy trwy glicio ar y bawd.

Gwneud eich safle'n hygyrch i bawb

Yn Hydref 2004 daeth Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 i rym. Yn yr un modd ag y mae drysau mewn adeiladau cyhoeddus yn rhoi mynediad i gadeiriau olwyn, bydd angen i'ch gwefan roi ystyriaeth i ymwelwyr gydag anableddau (e.e. nam ar y golwg, dyslecsia, epilepsi ayb)
I gael mwy o wybodaeth gweler Canllawiau Hygyrchedd Gwefan.

Defnyddio'r iaith Gymraeg

Mae nifer o adnoddau ar gael yn Gymraeg, yn cynnwys Microsoft Office 2003, Agored (fersiwn Cymraeg o Open Office) geiriadur Cymraeg, peiriannau chwilio Cymraeg, gwasanaethau cyfieithu ar lein.
Gellir ceisio gwybodaeth oddi wrth:
Bwrdd-yr-iaith/ Welsh Language Board
http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/en/ (Saesneg)
http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/ (Cymraeg)
Mae adnoddau cyfrifiadurol ar gael yn Gymraeg neu rhai sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.
I ganfod pa gyfleusterau TGCh sydd ar gael trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg cysylltwch â'r LLINELL GYSWLLT A'R GYMRAEG ar: 0845 607 6070.
Fel siaradwr Cymraeg – cewch wybodaeth am y cyfleusterau TGCh sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg trwy ffonio'r
LLINELL GYSWLLT A'R GYMRAEG ar: 0845 607 6070.

Os ydych yn dymuno elwa o'r rhaglen cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Tîm Cylchredwyr ar 01437 771197 neu e-bostiwch contact@walescvccircuitriders.org.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government